COFNOD O BENDERFYNIADAU CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR / Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB, DDYDD MAWRTH, 11 EBRILL 2023 AM 14.30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

N Farr, JP Blundell, H Williams, J Gebbie, JC Spanswick, R Goode

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Janine Nightingale, Cyfarwyddwr Corfforaethol dros y Cymunedau
Lindsay Harvey, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Swyddogion:

| | | |
|---|---|---|
| Mark Shephard | - | Prif Weithredwr |
| Claire Marchant | - | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Carys Lord | - | Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Zak Shell | - | Pennaeth Gweithrediadau, Gwasanaethau Cymunedol |
| Nicola Echanis | - | Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Kelly Watson | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Mark Galvin | - | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Julie Ellams | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cymeradwyo’r Cofnodion |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet Gofnodion y cyfarfodydd dyddiedig 22/2/23 a 14/3/23. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Ebrill 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Polisi Gosod Ffioedd Cartrefi Gofal |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet weithredu Polisi Gosod Ffioedd Cartrefi Gofal, i ddod i rym o ddiwedd Ebrill 2023. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Ebrill 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Fe wnaeth y Cynghorydd H Williams ddatgan buddiant rhagfarnus a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Polisi Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet Bolisi Cwynion diwygiedig y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd wedi ei gynnwys yn atodiad 1 i'r adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Ebrill 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Ymweliad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant 21 - 24 Tachwedd 2022 i archwilio gwelliant |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bu'r Cabinet yn ystyried Adroddiad AGC ar yr archwiliad gwelliant ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant Pen-y-bont ar Ogwr a gwnaethant sylwadau ar y Cynllun Gweithredu cysylltiedig oedd wedi ei ddiweddaru.<br><br>Nododd y Cabinet fod cynllun cynaladwyedd yn cael ei ddatblygu i gwrdd ag anghenion plant a theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn y modd mwyaf effeithiol fel y nodwyd ym mharagraff 4.15 yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Ebrill 2023 |

| | |
|---|---|
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Fe wnaeth y Cynghorydd John Spanswick ddatgan buddiant rhagfarnus a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Polisi Meddyginiaeth |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet y Polisi Meddyginiaeth i'w weithredu ar draws y Gwasanaethau Rheoleiddiedig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Ebrill 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet y penodiadau fel y'u disgrifiwyd ym mharagraff 4.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Ebrill 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Fe wnaeth y Cynghorydd JP Blundell ddatgan buddiant personol yn yr eitem hon. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Polisi Gostyngiad Dewisol yn y Dreth Gyngor |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyodd y Cabinet<br>a) polisi Gostyngiad Dewisol arfaethedig yn y Dreth Gyngor yn Atodiad A; a<br>b) newid yn y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau, fel y cafodd ei egluro ym mharagraff 4.3. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Ebrill 2023 |
| Buddiannau Personol neu | Dim |

| | |
|---|---|
| Ragfarnus a Ddatgelwyd | |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Ymgynghoriad ynghylch Canolfannau Ailgylchu Cymunedol |
| Y Penderfyniad Wnaed | Rhoddodd y Cabinet ganiatâd i ddechrau cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cynnig i gau pob Canolfan Ailgylchu Gymunedol am un diwrnod yr wythnos.<br><br>Nododd y Cabinet y câi adroddiad am ganlyniad yr ymgynghoriad ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Ebrill 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cyllid Dyfodol Parc Rhanbarthol y Cymoedd |
| Y Penderfyniad Wnaed | Nododd y Cabinet y cynnydd hyd yma wrth ddatblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd (VRP).<br><br>Cymeradwyodd y Cabinet y cais gan Fwrdd Parc Rhanbarthol y Cymoedd i CBS Pen-y-bont ar Ogwr barhau yn ei swyddogaeth o arwain Parc Rhanbarthol y Cymoedd hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24.<br><br>Dirprwyodd y Cabinet yr awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog dros Gyllid, Perfformiad a Newid a'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, i gymeradwyo telerau terfynol y cynnig grant, derbyn y cynnig o gyllid gan Lywodraeth Cymru a gwneud y cytundebau ariannol a chyfreithiol priodol ac angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth fel arweinydd tîm cyflawni Parc Rhanbarthol y Cymoedd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 11 Ebrill 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |